**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 1af Mehefin 2022, yn dechrau am 6.00pm.

**<u>YN BRESENNOL</u>**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, Mrs J.M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P.M. Jones, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker, Mrs M. A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**1. <u>YMDDIBHEURIADAU</u>**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, B. Mellor, a Miss S. L. Roberts.

**2. <u>CYLCH GORCHWYL AR GYFER PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU</u>**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gael cadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r cyngor. Roedd yr adroddiad yn nodi bod dau faes gwaith a ddirprwywyd i'r Is-bwyllgor Asesu Risg nawr wedi eu cwblhau.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r adroddiad a newid yr atodlen i ddileu awdurdod dirprwyedig i'r Is-bwyllgor Asesu Risg mewn perthynas â'r canlynol:*

- *Awdurdod i weithredu ar faterion yn ymwneud â Chymdeithas Gymunedol y Rhyl, a*
- *Canolfan Ddwr arfaethedig (nawr SC2)*

**3. <u>PENODI PWYLLGORAU/IS-BWYLLGORAU AR GYFER BLWYDDYND DDINESIG 2022/23</u>**

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, cadarnhau aelodaeth pwyllgorau/is-bwyllgorau'r Cyngor Tref ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *bod aelodaeth y Pwyllgorau/Is-bwyllgorau fel a ganlyn:*

***Pwyllgor Staffio:*** *Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, Mrs D. L. King, P. Prendergast ac A. J. Rutherford.*

***Pwyllgor CSG:*** *Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield, Mrs E.M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Mrs M. A. Walker.*

***Is-bwyllgor Asesu Risg:*** *Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, a P. Prendergast.*

***Is-bwyllgor Cynllun yr Iaith Gymraeg:*** *Mrs J. Hughes, K. R. Jones a J. L. McAlpine.*

***Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol:*** *Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. Roberts ac A. J. Rutherford.*

***Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd****: Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs J. M. Evans, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, A. Walker a Mrs M. A. Walker.*

***Gweithgor Cyfathrebu:*** *Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield, Mrs E. M. Chard, K. R. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, a Miss C. L. Williams.*

## 4. ETHOL CADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford yn Gadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.*

## 5. ETHOL IS-GADEIRYDD – PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i benodi Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yn Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.*

## 6. PENODI LLYWODRAETHWYR YCHWANEGOL CYMUNEDOL YSGOLION

Ymhellach i gofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, dywedodd y Clerc, ar ôl yr etholiadau diweddar, bod dwy swydd wag i'w penodi fel Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol. Dywedodd y Clerc hefyd y byddai'n ymarferol ail-benodi'r holl Lywodraethwyr eraill ar yr adeg hon er mwyn galluogi i'w cyfnodau yn y swydd gyd-daro.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) ail-benodi'r Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol canlynol:*

*Ysgol Dewi Sant – Y Cynghorydd Mrs J. Hughes*
*Ysgol Christ Church – Y Cynghorydd Mrs D. L. King*
*Ysgol Christ the Word – Ms J. L. McAlpine*
*Ysgol Llewelyn – Ms V. Roberts*

*(ii) Penodi'r Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol canlynol fel y nodir:*

*Ysgol Bryn Hedydd – Y Cynghorydd S. Feeney*
*Ysgol Emmanuel – Y Cynghorydd Mrs M. A. Walker*

**7. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GWEITHGOR DIGOELWCH CYMUNEDOL Y RHYL**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn gwahoddiad gan Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i'r Cyngor Tref benodi cynrychiolydd ar y Gweithgor Diogelwch Cymunedol newydd ei sefydlu ar gyfer y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd A. R. James.*

**8. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL / SEFYDLIADAU PARTNER**

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau i benodi cynrychiolwyr ar gyrff allanol a grwpiau partneriaeth.

Nodwyd bod nifer o'r grwpiau heb gyfarfod am fwy na 12 mis ond ei bod yn aneglur os oedd hyn oherwydd cyrff yn dod i ben neu gyfarfodydd ddim yn cael eu cynnal oherwydd pandemig Covid-19.

***PENDERFYNWYD**:*

*(i) ail-gadarnhau holl benodiadau presennol yn amodol ar y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine yn dod yn gynrychiolydd a'r Cynghorydd S. Feeney yn dod yn ddirprwy ar gyfer y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau;*

*(ii) ymgymryd ag adolygiad llawn o statws cyrff allanol yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23.*

**9. DYNODI DYLETSWYDDAU CYEMRADWY**

***PENDERFYNWYD*** *bod y cynrychiolwyr canlynol sy'n cael eu penodi i wasanaethu ar gyrff allanol yn cael eu dynodi fel dyletswyddau cymeradwy dan Lwfans Lwfansau Aelodau Cyngor Tref y Rhyl, lle cynhelir cyfarfodydd y tu allan i ffiniau'r dref:*

- *Hyfforddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor a'i Bwyllgorau Sefydlog*
- *Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'r Pwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol cysylltiedig)*
- *Sir Ddinbych Gynaliadwy*
- *Grŵp Cyfeirio Gogledd Sir Ddinbych Prifysgol Betsi Cadwaladr*
- *Presenoldeb y Maser/Dirprwy Faer yn Siroedd Dinbych, y Fflint a Chonwy*

**10. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL/MAI 2022**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Taliadau ac Incwm - Ebrill 2022

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1388 | Shire Leasing | 337.33 | System Ffôn Avaya – prydlesu – taliad 1 o 4 2022/23 |
| 1389 | BT | 485.38 | Rhentu a thaliadau ffôn |
| 1390 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Chwefror i 16 Mawrth 2022 |
| 1392 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi rheoli Mawrth 2022 |
| 1393 | CThEM | 3,752.05 | Didyniadau PAYE Mawrth 2022 |
| 1394 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,839.09 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mawrth 2022 |
| 1395 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,394.65 | Cyflog net i staff Cyngor Tref y Rhyl Ebrill 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 732.25 | Ardrethi Annomestig, Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£18,988.75** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 diwrnod | 33.12 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 5.52 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 5.18 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 5.18 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 5.18 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£ 54.18** |

Taliadau ac Incwm - Mai 2022

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1404 | HSBC | 9.00 | Taliadau banc 17 Mawrth i 16 Ebrill 2022 |
| 1405 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi rheoli Ebrill 2022 |
| 1406 | CThEM | 3,025.60 | Didyniadau PAYE Ebrill 2022 |
| 1407 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Ebrill 2022 |
| 1408 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,394.44 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Ebrill 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | Ardrethi Annomestig Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl |
| 1411 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Ad-daliad benthyciad SC2 – 1 o 3 ar gyfer 2022/23 |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£48,981.67** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 diwrnod | 40.68 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 5.18 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.85 |

| | | |
|---|---|---|
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| HSBC | Llog ar gyfrif adneuo 7 diwrnod | 26.85 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£ 126.41** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 11. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

(13eg Ebrill – 25ain Mai 2021)

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1399 | Alzheimers Society | Casgliad Elusen y Maer 2021/22 – Dosbarthu | £270.40 |
| 1400 | Sage & Co. | Gwasanaethau Cyflogres Ionawr - Mawrth 2022 | £93.00 |
| 1401 | ATC Gogledd a Chanolbarth Cymru | Prydau ar gyfer 2 gynrychiolydd cyfarfod Ebrill 2022 | £40.00 |
| 1402 | Y Cyngh D King | Treuliau Maer Ebrill 2022 | £139.80 |
| 1403 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | CG Tynewydd – Ffi reoli Ebrill 22 | £875.00 |
| 1409 | Canda Copiers | Rhentu llungopiwr | £259.32 |
| 1410 | Canda Copiers | Copiau du a gwyn a lliw | £61.79 |
| 1411 | JDH Business Services Ltd | Archwilio Mewnol – Ffi derfynol 2021/22 | £345.60 |
| 1413 | Homestart Sir Ddinbych | Gwasanaethau a gomisiynwyd – Prosiect Teuluol y Rhyl | £2,000.00 |
| 1414 | Cwmni Theatr Gymunedol Clwyd | Rownd derfynol dramau un act Prydain | £1,000.00 |
| 1415 | Morrisons | Blodau ac anrhegion ar gyfer digwyddiad sefydlu'r Maer | £54.50 |
| **Cyfanswm** | | | **£5,139.41** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**Taliadau argyfwng a cherdyn**: Cymeradwywyd talebau 1399 i 1403 a 1409 i 1411 i'w talu gan Glerc y Dref dan awdurdod dirprwyedig oherwydd yr egwyl etholiadol. Roedd un taliad cerdyn, Taleb rhif 1415.

## 12. EITEM GAN AELOD

Cyfeiriodd y Cynghorydd K. R. Jones ar yr etholiadau diweddar ac yn benodol ar nifer o broblemau a oedd wedi codi. Yn gyntaf, sylw gan Gyngor Sir Ddinbych maiu dim ond ychydig o bleidleisiau post pobl a oedd wedi mynd ar goll, a oedd

yn siomedig oherwydd bod pob pleidlais yn bwysig ac yn gallu dylanwadu ar ganlyniad etholiad gan ein bod wedi gweld bod rhai pobl wedi eu hethol ar lond llaw o bleidleisiau.

Yn ail, lleoliad a hyrwyddiad gwael rhai gorsafoedd pleidleisio a'r wybodaeth anghywir ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Yn drydydd, ar ôl ebostio Cyngor Sir Ddinbych dair gwaith i godi'r materion hyn, nad oedd wedi derbyn unrhyw ateb gan yr adran benodol. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei bod yn ymddangos mai dim ond i gynghorwyr wardiau sirol yr oeddynt yn ymateb, a oedd yn dangos diffyg parch.

Cefnogodd aelodau eraill sylwadau'r Cynghorydd Jones a dweud eu bod wedi derbyn llawer o gwynion ynglŷn â methu parcio ger gorsafoedd pleidleisio, eu bod yn rhy bell i ffwrdd a hyd yn oed ddim yn y ward.

***PENDERFYNWYD***:

*(i) gwahodd y Swyddog Canlyniadau i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref er mwyn i'r aelodau allu trafod y materion uchod gydag ef.*

*(ii) bod aelodau gyda phryderon ynglŷn â'r etholiadau yn darparu'r manylion i Glwerc y Dref drwy ebost.*

## 13. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 14. TROSGLWYDDO CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad llafar yn dweud bod trosglwyddiad Canolfan Gymunedol Tynewydd i Gymdeithas Gymunedol y Rhyl wedi ei gwblhau ar 28ain Ebrill 2022.

## 15. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddobarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio - Strategol a Gweithredol | 14eg Mawrth 2022 - | Rhifau Cofnod 31 - 39 |
| Is-bwyllgor Arbennig Asesu Risg | - 15fed Mawrth 2022 | - Rhifau Cofnod 53 - 57 |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion. Cadarnhawyd argymhellion canlynol y Pwyllgor CSG:*

Mewn perthynas â chofnod rhif 37 cyfarfod y CSG, dyfarnu grant o £6,000 i'r Siop Cyngor ar Fudd-daliadau ar gyfer cyllid cyffredinol.

Mewn perthynas â chofnod rhif 38 cyfarfod y CSG, dyfarnu grant o £1,000 i Rownd Derfynol Dramau Un Act Prydain (roedd y grant wedi ei gymeradwyo yn flaenorol ond heb ei dalu gan fod y digwyddiad wedi ei ohirio).

Mewn perthynas â cofnodion y CSG, dywedodd y Cynghorwyr A. R. James ac A. J. Rutherford nad oedd eu hymddiheuriadau wedi eu cynnwys.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai'r llyfr presenoldeb yn cael ei wirio ac ychwanegu'r ymddiheuriadau os oeddynt wedi eu cofnodi.*

**16. ADNEWYDDU YSWIRIANT 2022- 2023**

Cyflwynwyd cyd-adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid mewn perthynas â chamau a gymerwyd mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar yswiriant y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022-22 (yn cychwyn ar 1af Mehefin 2022).

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r camau a gymerwyd gan y swyddogion mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

**17. HAMDDEN SIR DDINBYCH CYF – CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**

Derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) i benderfynu ar gais gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf mewn eprthynas â Siooe Awyr eleni.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) cymeradwyo taliad unwaith ac am byth ychwanegol o £10,000 (i'w dalu o arbedion a wnaed ar draws cyllidebau'r cyngor ac o gronfeydd wrth gefn os oedd angen) ac adolygu hyn y flwyddyn nesaf.*

*(ii) Bod cynnydd y Cyngor Tref yn cael ei adlewyrchu gan weledEdd lefel uwch yn holl ddeunydd hyrwyddo a marchnata Cyngor Sir Ddinbych o'r Sioe Awyr.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dfref allu ymateb fel mater o frys.*

**[Datganodd y Cynghorydd P. Prendergast fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod fel Cyfarwyddwr o Hamdden Sir Ddinbych Cyf, ac aeth i'r ystafell aros rithwir ar gyfer yr eitem a pheidio â chymryd rhan bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio]**

**18. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ………………….....

Dyddiad: ………………………